



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaethau Gofal Cartref

**Pwynt Mynediad Unigol
Cyngor Sir Ddinbych
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN**

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/08/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gwasanaethau Gofal Cartref

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ddinbych
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn yw arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael ac yn canmol safon y gofal a ddarperir iddynt. Caiff ymdrechion eu gwneud i gynnwys y bobl yn y penderfyniadau a wneir am y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Caiff eu safbwyntiau eu parchu, a chaiff y gofal ei deilwra at eu dymuniadau a'u dewisiadau unigol. Mae'r gofal a ddarperir iddynt yn hyblyg ac yn newid yn unol ag anghenion y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion gofal presennol y bobl, a sut yr hoffent gael eu cefnogi, a chaiff y dogfennau hyn eu diweddarau pan fo angen. Gofynnir am farn y bobl fel rhan o'r adolygiadau ffurfiol o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda a'i reoli'n dda, a hynny'n gyson. Mae trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd, ac i ystyried sut y gellir gwella'r gwasanaeth neu ei ddatblygu ymhellach. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel, cânt eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr, a darperir hyfforddiant perthnasol iddynt. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau.

Llesiant

Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae hyn oherwydd gallant gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig glir am y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn galluogi'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn, os bydd angen iddynt wneud hynny.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu gofal a'u cymorth. Mae trefniadau ar waith i gasglu gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a sut yr hoffent gael eu cefnogi. Caiff y rhain eu cofnodi yng nghynlluniau personol y bobl, ac mae'r staff yn gallu cael gafael ar y dogfennau hyn yn hawdd. Mae'r gofal a ddarperir yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau unigol pob person, sy'n dangos bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed. Caiff dogfennau gofal eu diweddarau pan fydd anghenion y bobl yn newid, sy'n sicrhau bod y bobl bob amser yn derbyn y cymorth cywir i gyflawni eu canlyniadau unigol. Mae'r adolygiadau o ansawdd y gofal yn cynnwys adborth gan y bobl sy'n derbyn cymorth, sy'n golygu eu bod yn cael eu cynnwys wrth lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff sy'n eu cefnogi. Gwelsom fod y staff yn dangos parch tuag at y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt, a'u bod yn cydnabod pob person fel unigolyn ag anghenion unigol. Rhoddir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i allu gwneud y pethau y maent eisiau eu gwneud, ac mae hyn yn cyfrannu at eu hymdeimlad cadarnhaol o lesiant. Mae'r staff yn mwynhau eu gwaith ac yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau. Maent hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli ac yn teimlo y gallant godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae'r tîm rheoli yn goruchwyllo'r gwasanaeth a ddarperir yn dda, ac o ganlyniad, mae'r bobl yn cael gwasanaeth o ansawdd da. Caiff gwiriadau monitro eu cwblhau'n rheolaidd gan y tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'r disgwyliadau.

Caiff iechyd corfforol ac iechyd emosiynol eu hybu. Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl i adennill eu lefelau annibyniaeth blaenorol pan fyddant yn gwella ar ôl cyfnod o salwch neu anaf. Mae'r staff yn cydnabod pwysigrwydd galluogi'r bobl i wneud cymaint ag y gallant drostynt eu hunain, ac amddiffyn annibyniaeth y bobl. O ganlyniad, mae'r bobl yn llwyddo i gynnal eu hymdeimlad o ymreolaeth a rheolaeth dros eu bywydau.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed. Caiff camau priodol eu cymryd lle ceir pryderon am ddiogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Caiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau ar gyfer aelodau o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth cyn iddynt ddechrau gweithio gyda'r bobl. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i nodi achosion o gam-drin ac esgeuluso, a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran

amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae polisi diogelu ar waith sy'n nodi'r camau gweithredu y mae angen i'r tîm rheoli eu cymryd mewn ymateb i unrhyw faterion diogelu sy'n codi.

Gofal a Chymorth

Mae trefniadau ar waith i gynnwys y bobl mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cofnodi dymuniadau'r bobl o ran sut yr hoffent gael eu cefnogi, a chaiff eu dewisiadau personol eu parchu. Caiff yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain ei gofnodi, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo annibyniaeth y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael cymorth i adennill eu lefelau annibyniaeth blaenorol, gan nodi fod hynny'n ganlyniad cadarnhaol iddynt. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y cymorth a ddarperir yn hyblyg ac yn ymateb i anghenion penodol y bobl. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael sgysiau parhaus gyda'r bobl am lefel y cymorth sydd ei hangen arnynt, ac y gellir addasu'r cymorth hwnnw yn unol ag unrhyw newidiadau i anghenion y bobl.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth maent yn eu cael, a bod eu hanghenion gofal yn cael eu diwallu. Dywedodd gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol wrthym fod y staff yn gweithio mewn partneriaeth ag ef a'r gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae hyn yn helpu'r bobl i oresgyn rhwystrau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Gall y bobl fod yn hyderus bod eu cynlluniau personol yn cofnodi eu hanghenion gofal a chymorth cyfredol. Gwnaethom edrych ar sampl o gynlluniau personol a gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu'n gyson, a'u bod yn nodi unrhyw newidiadau o ran anghenion y bobl. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar gael i'r staff am y cymorth sydd ei angen ar y bobl, sy'n sicrhau bod y bobl yn derbyn y cymorth cywir yn gyson.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed ac esgeulustod. Gwelsom fod polisi diogelu ar gael i'r staff a'u bod yn cael hyfforddiant. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r bobl rhag camdriniaeth, ac maent yn hyderus o ran sut i roi gwybod am faterion o'r fath. Mae'r rheolwr yn atgyfeirio pryderon diogelu yn briodol i'r awdurdod lleol pan fo angen.

Gall y bobl gael gwasanaeth yn eu dewis iaith. Caiff y Gymraeg a diwylliant Cymru eu parchu, a gwneir ymdrech i ddarparu staff sy'n siarad Cymraeg i'r bobl sydd am gael gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir ar gael yn ddwyieithog.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael sy'n disgrifio'r gwasanaeth y gall y bobl ddisgwyl ei gael. Mae'r canllaw yn cynnwys arweiniad clir o ran sut i gwyno a sut yr ymdrinnir â chwynion, yn unol â'r gweithdrefnau cwyno. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn gyson. Mae adroddiadau ar gael sy'n dangos fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymgymryd ag ymweliadau ffurfiol i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad yn nodi meysydd o'r gwasanaeth y gellir eu gwella ymhellach, a pha gamau gweithredu sydd eu hangen i hwyluso'r gwelliannau. Caiff unrhyw gynnydd a wneir ei fonitro yn ymweliad dilynol yr Unigolyn Cyfrifol. Mae gan y rheolwr drefniadau ar waith i gynnal gwiriadau monitro misol i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae adroddiadau ar gael i ddangos tystiolaeth o'r gwiriadau archwilio a gwblheir gan y rheolwr. Caiff safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu hystyried fel rhan o'r adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn golygu fod y bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn bwrw ati mewn modd rhagweithiol i ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o weithio gyda'r bobl, ac maent yn ymrwymedig i ddatblygu'r gwasanaeth fel y gall ddiwallu anghenion poblogaeth ehangach o bobl.

Mae'r staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel ac maent yn cael hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w gwaith. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i aelodau newydd o staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod hyfforddiant gorfodol ar gael i'r staff yn ogystal â rhywfaint o hyfforddiant penodol sy'n ymwneud ag anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Cadarnhaodd y staff eu bod wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu ac wedi cysgodi shifftiau pan wnaethant ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Caiff cymorth ei ddarparu hefyd i staff astudio ar gyfer cymwysterau gofal cymdeithasol ffurfiol, sy'n ehangu sail wybodaeth y staff ymhellach. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, ac mae'r staff yn cael cyfarfodydd cymorth goruchwyllo un i un gydag aelod o'r uwch-staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith. Maent hefyd yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau, yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwr, ac yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Mae rhai o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am sawl blwyddyn sy'n golygu eu bod yn brofiadol ac yn gallu darparu gofal cyson i'r bobl.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 29/09/2023